

CYNGOR TREF Y DRENEWYDD A LLANLLWCHAIARN

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



CYNNWYS

A. Datganiad

B. Cyflwyniad i Gyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaiarn

C. Cynllun Iaith Gymraeg:

1. Cynllunio a Gweithredu'r Gwasanaeth
2. Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg
3. Wyneb Cyhoeddus y Cyngor
4. Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Cynllun Iaith

ar gyfer

Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaiarn

a baratowyd yn unol ag anghenion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

A. DATGANIAD

Mae Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaiarn wedi mabwysiadu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar delerau cyfartal tra'n ymdrin a thrafod materion cyhoeddus o fewn Cymru. Mae'r cynllun iaith yma'n gosod allan sut bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor hwnnw wrth ddarparu ei wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion mewn iaith a ffafriant neu sydd orau ganddynt ei defnyddio, a chydabyddda'r Cyngor fod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu hiaith ddewisol neu iaith ddetholedig yn fater o arferiad da yn hytrach nag o gonsesiwn, ac y gallai gwrthod cynnig yr hawl hwnnw osod aelodau o'r cyhoedd dan wir anfantais.

Bydd y Cyngor felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa bynnag un o'r ddwy iaith a ddymunant neu a ffefrir ganddynt, wrth ddelio â'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn amcanu i wneud y canlynol:

- Galluogi unrhyw un sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, neu sy'n cyfrannu i'r broses ddemocrataidd, i wneud hynny trwy gyfrwng naill a'r iaith Gymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis personol hwy eu hunain.
- Annog y defnydd o'r iaith Gymraeg ym mywyd yr ardal y mae'n ei wasanaethu.
- Annog y defnydd o'r iaith Gymraeg gan gyrff eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor, a chynnal ac annog y defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o fewn yr ardal a wasanaethir gan y Cyngor.

Cafodd y cynllun ei gymeradwyo gan y Bwrdd o dan Adran 14 (1) o'r Ddeddf ar

.....
(dyddiad)

B. CYFLWYNIAD i GYNGOR TREF Y DRENEWYDD a LLANLLWCHAIARN

Sefydlwyd Cyngor y Dref ym 1974 yn dilyn dirwyn i ben Gyngor Dosbarth Trefol Y Drenewydd a Llanllwchaiarn. Mae'n gwasanaethu pobl Y Drenewydd a Llanllwchaiarn sy'n byw mewn rhanbarth deniadol iawn o Ddyffryn Hafren. Rhed priffordd yr A483 yn ogystal â'r rheilffordd o Amwythig i Aberystwyth drwy ganol yr ardal a wasanaethir gan y Cyngor. Mae'r ardal honno'n ymestyn o'r tu hwnt i Goleg Powys ac Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ar y ffin orllewinol, hyd at Y Gro ac Ystâd Ddiwydiannol Dyffryn ar yr ochr ddwyreiniol. Yn ôl Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Powys, mae 14.01% o'r boblogaeth dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg.

Mae swyddfeydd y Cyngor wedi eu lleoli uwchben Amgueddfa Robert Owen, mewn adeilad sy'n sefyll ar leolfan yn y dref a adwaenir fel 'The Cross'. Saif drws y fynedfa i'r swyddfa ar Heol Hafren. Mae Cyngor y Dref yn cynnwys 16 o Aelodau Etholedig, ac mae'n cyflogi 5 o staff sydd bob un ohonynt yn lleoledig yn Swyddfeydd Cyngor y Dref. Mae Clerc y Dref yn gweithredu fel y pennaeth ar weddill staff cyflogedig y Cyngor.

Mae Cyngor Tref Y Drenewydd yn cynnal swyddfeydd ei Adeilad Rhestredig (Graddfa II) yn ogystal ag Amgueddfa Robert Owen. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal pedair o ardaloedd chwarae, safle aml-chwaraeon a chyfarfydd-fan ieuenctid, a safle hynafol hen Eglwys a Mynwent sy'n cynnwys beddrodau Robert Owen a theulu Pryce-Jones.

Gyda chymorth busnesau lleol, bydd Cyngor y Dref yn flynyddol yn darparu arddangosfa helaeth o oleuadau Nadolig, a ystyrir fel yr un orau o'i bath yng nghanolbarth Cymru.

Bydd Cyngor y Dref yn rheolaidd yn derbyn ceisiadau oddi wrth grwpiau lleol, am nawdd ariannol a chymhorthion o fathau eraill, tuag at gynnal eu gweithgareddau. Mae'r Cyngor yn gwahodd ymgeiswyr, os dymunant wneud hynny, i gynnwys yn eu ceisiadau wybodaeth ar sut y byddant (neu sut y bwriadant) adlewyrchu natur ddwyieithog yr ardal, o fewn eu sefydliad. Mater i'r ymgeiswyr i'w ystyried ydyw hynny, ac nid yw'n amod gorfodol o safbwynt dyroddi cymhorthdal iddynt.

C. CYNLLUN IAITH GYMRAEG

1. CYNLLUNIO A GWEITHREDU'R GWASANAETH

1.1 Polisiau a Menter-Gynlluniau (Blaengareddau) Newydd

1.1.1 Bydd y Cyngor yn asesu goblygiadau ieithyddol unrhyw bolisiau neu flaengareddau (menter-gynllun, cywaith, prosiect neu gynllun arloesol) newydd, tra'n eu ffurfio a'u blaen-drefnu.

1.1.2 Bydd polisiau a menter-gynlluniau blaengar yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg lle bynnag y byddo hynny'n bosib, a byddant yn symud y Cyngor yn agosach at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn gyflawn, bob cyfle a geir.

1.1.3 Bydd unrhyw bolisiau neu fenter-gynlluniau newydd yn cyd-fynd yn gyson â'r cynllun iaith.

1.1.4 Ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw yn achos unrhyw argymhellion a allai affeithio ar gynllun iaith y Cyngor, neu effeithio ar gynlluniau iaith unrhyw sefydliadau eraill. Ni newidir unrhyw agwedd o'n cynllun iaith ni oni bydd y Bwrdd wedi cytuno i ni wneud hynny.

1.1.5 Bydd y rheiny sy'n ymwneud â ffurfio polisi yn ymwybodol o'r cynllun, ac yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan amodau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

1.1.6 Bydd y mesurau a gynhwysir yn y cynllun iaith hwn yn cael eu cymhwyso i bolisiau a blaengareddau (menter-gynlluniau) newydd wrth eu cyflwyno a'u gweithredu.

1.2 Gweithredu'r Gwasanaeth

1.2.1 Bydd y Cyngor yn amcanu i sicrhau y bydd holl agweddau ei wasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ar gael drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, trwy wneud y canlynol:

- Mabwysiadu gweithdrefnau a fydd yn galluogi i'n gwasanaethau ni gael eu darparu yn yr iaith a ddewisir neu a ffefrir gan y defnyddwyr.

1.2.2 Bydd y mesurau a osodir allan yn y cynllun iaith yn cael eu cymhwyso i'r holl wasanaethau a ddarperir ac a weithredir gan y Cyngor i'r cyhoedd.

1.2.3 Bydd aelodau'r staff yn llwyr ymwybodol o anghenion y cynllun iaith, a bydd Clerc y Dref yn gyfrifol am sicrhau fod holl anghenion y cynllun yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith a wneir gan staff y Cyngor.

1.3 Safonau Ansawdd y Cynllun Iaith

1.3.1 Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn Saesneg a Chymraeg o'r un ansawdd cyfartal ac uchel. Bydd y Cyngor yn gwneud yn sicr ei fod yn darparu safonau cyson o wasanaeth yn yr iaith

Gymraeg o fewn holl gylch-feysydd ei waith a'i orchwyl.

1.3.2 Bydd gwybodaeth ynglŷn ag ymrwymiad y Cyngor i ddarparu gwasanaeth o safon cydradd ac uchel yn y naill iaith a'r llall, yn cael ei ddatgan mewn dogfennau megis Tywys-lyfr y Dref.

1.3.3 Bydd darpariaeth a gweithrediad gwasanaethau yn y ddwy iaith fel ei gilydd yn cydymffurfio ag ymrwymiad presennol i safonau, fel y'i nodir yn benodol yn Siarter y Dinesydd.

1.3.4 Bydd y safonau ansawdd sy'n berthnasol i wasanaethau - ac i weithredu'r gwasanaethau hynny - yn yr iaith Gymraeg, yn cael eu monitro yn rheolaidd.

2. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

2.1 Cyfathrebu Ysgrifenedig

2.1.1 Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth naill ai'n yr iaith Saesneg neu'r iaith Gymraeg.

2.1.2 Ni ddylai gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun arwain at unrhyw oediad.

2.1.3 Bydd pob gohebiaeth â'r Cyngor a fydd angen ymateb yn derbyn ateb llofnodedig yn yr un iaith â'r iaith yr ysgrifennwyd y llythyr gwreiddiol ynddo.

2.1.4 Bydd pob gohebiaeth yn dilyn galwad dros y ffôn neu sgwrs wyneb-yn-wyneb yn yr iaith Gymraeg, hefyd yn Gymraeg, oni bai fod yr aelod o'r cyhoedd wedi nodi ei ddymuniad yn wahanol.

2.1.5 Bydd pob gohebiaeth a fyddo'n deillio o gyfarfod lle y cadarnhawyd mai dewis iaith y person dan sylw yw'r Gymraeg, er na fyddo'r cyfarfod ei hun efallai wedi ei gynnal trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, yn cael ei ysgrifennu a'i anfon allan yn y Gymraeg.

2.1.6 Bydd pob gohebiaeth gydag aelodau o'r cyhoedd yn cael ei ddechrau yn iaith ddewisol y person hwnnw/honno, pryd bynnag y gwyddys hynny. Pryd na fyddir yn gwybod pa iaith fyddai orau gan dderbynydd, bydd yr ohebiaeth gyntaf oddi wrth y Cyngor yn yr iaith Saesneg.

2.1.7 Bydd holl gylchlythyrau neu lythyrau cyffredin i'r cyhoedd wedi eu hysgrifennu'n ddwyieithog.

2.1.8 Bydd papur ysgrifennu swyddogol y Cyngor yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith, a fydd yn esbonio'n fyr ond yn eglur fod gohebiaeth ar gael yn y naill iaith a'r llall.

2.1.9 Hyd nes delo'r amser pryd y bydd gan y Cyngor o leiaf un aelod o'i staff a fydd yn abl i gynhyrchu cyfathrebiaeth - ysgrifenedig a llafar - o safon uchel yn y Gymraeg, bydd y Cyngor yn llogi gwasanaeth cyfieithydd yn ôl y gofyn a'r angen. Bydd y cyfrifoldeb am ansawdd yr ohebiaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg a gynhyrchir gan y Cyhoedd, yn gorffwys gyda chyfieithydd y Cyngor.

2.1.10 Bydd y cyfieithydd yn gyfrifol am drefnu i gyfieithu gohebiaethau.

2.2 Cyfathrebu Dros y Ffôn

2.2.1 Mae'r Cyngor yn croesawu ymholiadau dros y ffôn, boed yn Gymraeg neu Saesneg.

2.2.2 Bydd pob galwad ffôn oddi allan yn cael ei chroesawu yn ddwyieithog.

2.2.3 Bydd y rheiny a fydd yn ateb y ffôn yn abl i ddelio â galwadau yn y ddwy iaith. Hyd nes y bydd y sefyllfa honno wedi ei chyrraedd, bydd aelodau o'r staff nad ydynt yn medru'r Cymraeg yn esbonio eu sefyllfa yn gwrtais, ac yn cynnig trosglwyddo'r person a fyddo'n galw i siaradwr Cymraeg. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, bydd y swyddog a fydd yn derbyn yr alwad yn cymryd enw'r person sy'n galw a rhif ei ffôn, a bydd yn gwneud yn sicr y bydd siaradwr Cymraeg yn dychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosib.

2.2.4 Bydd canllawiau ar y weithdrefn gywir yn cael eu dyroddi i aelodau priodol o'r staff.

2.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

2.3.1 Mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor, bydd cyfraniadau yn cael eu croesawu yn Saesneg neu Gymraeg. Hysbysir hyn yn glir yn y llenyddiaeth a gynhyrchir i alw ynghyd neu i gyhoeddi'r cyfarfod.

2.3.2 Bydd cyfleusterau cyfieithu yn cael eu darparu gan y Cyngor, yn yr holl gyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor, pan fydd Clerc y Dref wedi ei hysbysu dri diwrnod ymlaen llaw y bydd angen y cyfryw ddarpariaeth, a bod y cyfryw gyfleusterau /offer ar gael.

2.3.4 Bydd pob cyhoeddusrwydd i hysbysebu cyfarfodydd cyhoeddus, ei hun yn ddwyieithog.

2.3.5 Bydd pob gwybodaeth ysgrifenedig a ddefnyddir mewn cyfarfod, megis sleidiau uwchdaflunydd (OHP), taflenni, gwybod-lenni, arwyddion neu benawdau, yn ddwyieithog.

2.4 Cyfarfodydd Eraill â'r Cyhoedd - wedi eu trefnu ymlaen llaw

2.4.1 Bydd y Cyngor yn croesawu cynnal cyfarfodydd gyda'r cyhoedd naill ai yn Saesneg neu'r Gymraeg.

2.4.2 Dylai gweithwyr cyflogedig y Cyngor a fyddo'n cysylltu ag aelodau o'r cyhoedd fedru gweithio yn y ddwy iaith. Hyd nes y byddwn ni wedi ymgyrraedd at y ddelfryd honno, bydd aelodau o'r staff nad ydynt yn medru'r Cymraeg yn esbonio eu sefyllfa yn gwrtais, ac yn cynnig ymgynnwys siaradwr Cymraeg. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, gwahoddir y person naill ai i drafod y mater dan sylw yn Saesneg, neu fe gynigir iddo/iddi yr arall ddewis - sef y bydd siaradwr Cymraeg yn cysylltu ag ef/hi mor fuan ag y bydd yn ymarferol bosib.

2.4.3 Cyfarfodydd mewn adeilad o eiddo'r Cyngor: Lle y gwyddys mai'r iaith Gymraeg yw iaith ddewisol neu ddetholedig y person dan sylw, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau y bydd person dwyieithog ar gael i gyfarfod â'r person dan sylw.

2.5 Cysylltiadau Eraill â'r Cyhoedd

2.5.1 Ar hyn o bryd does gan y Cyngor ddim cyswllt gyda'r cyhoedd trwy gyfrwng cyfrifiadurol, ond pe byddai i hynny ddigwydd yn y dyfodol, yna fe fydd y cyswllt hwnnw yn cydymffurfio â'r

mesurau a osodwyd allan o dan adran Cyfathrebu Ysgrifenedig y ddogfen yma.

3. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

3.1 Hunaniaeth Gyfun

3.1.1 Enw'r Cyngor yw Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaiarn / Newtown & Llanllwchaiarn Town Council.

3.1.2 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu hunaniaeth gyfun a fydd yn gwbl ddwyieithog.

3.1.3 Bydd enw'r Cyngor yn ymddangos yn y ddwy iaith ar holl arwyddion mewnol ac allanol ym mhob cylch o'i ardal, ar ei gyhoeddiadau, ar gerbydau modur ac ar adeiladau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor.

3.1.4 Bydd pob papur swyddogol, pennawd-bapur llythyrau, papur peiriant ffacs a phapur nodyn cyfarchion, yn ddwyieithog.

3.2 Arwyddion

3.2.1 Bydd pob arwydd newydd neu arwyddion a fydd yn disodli hen arwyddion blaenorol ar adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys manau mewnol o adeilad lle mae hawl gan y cyhoedd i'w hygyrchu neu gael mynediad iddynt, yn ddwyieithog.

3.2.2 Bydd maint, ansawdd, darllenadwyedd ac amlygrwydd testun ar arwyddion, yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb.

3.2.3 Os defnyddir arwyddion gwahanol yn achos y ddwy iaith, byddant yn ymddangos gyda'i gilydd a byddant yn gydradd a chyfartal o ran eu fformat, eu maint, eu hansawdd, eu darllenadwyedd a'u hamlygrwydd.

3.2.4 Pan ymgynghorir â'r Cyngor ynghylch arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd, bydd y Cyngor yn cynnal yr egwyddor o gael arwyddion sy'n gyfan-gwbl ddwyieithog.

3.2.5 Pan ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn ag enwau ar gyfer ffyrdd neu strydoedd neu ddatblygiadau newydd, bydd y Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o ddefnyddio enwau ag iddynt ysbrydoliaeth leol, a ffurf ac ieithwedd Gymreig. Lle byddo gwahaniaeth rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg yn bodoli yn sillafiad y llythrennau yn unig, yna bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r ffurf Cymraeg.

3.3 Defnyddiau Argraffedig a Chyhoeddedig

3.3.1 Bydd pob cyhoeddiad a anelir at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru fel rheol yn ddwyieithog, gyda fersiynau'r ddwy iaith yn ffurfio un ddogfen gyflawn. Bydd y fersiynau'n cael eu hargraffu ochr wrth ochr, er mwyn hyrwyddo traws-gyfeirio cyfleus.

3.3.2 Pan gyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, fe'u dyroddir yr un pryd, ar-y-cyd; fe'u dosberthir gyda'i gilydd, bydd y naill fersiwn ar gael yr un mor rhwydd â'r llall, a bydd eu pris

gwerthiant yr un fath yn achos y ddau fersiwn fel ei gilydd.

3.3.3 Cynhyrchir pob Agenda a Chofnodion y Cyngor a'i Bwyllgorau yn yr iaith Saesneg. Bydd fersiynau yn cael eu darparu yn yr iaith Gymraeg, os gofynnir am hynny gan roi o leiaf dri diwrnod o rybudd ymlaen llaw.

3.3.4 Gellir cynhyrchu adroddiadau a gwybodaeth gefndirol yn Saesneg neu Gymraeg, neu fel arall yn ddwyieithog.

3.3.5 Bydd testun geiriol a gynhyrchir yn Saesneg yn unig neu yn Gymraeg yn unig yn cael ei gyfieithu, dim ond os cyflwynir cais penodol oddi wrth aelod o'r cyhoedd am fersiwn yn yr iaith arall.

3.3.6 Darllenir proflenni pob dogfen sydd i'w chyhoeddi a'i chyfieithu i'r Gymraeg, gan y cyfieithydd.

3.3.7 Cynhyrchir unrhyw fath arall o ddefnyddiau argraffedig yn Saesneg - boed yn argraffiad ar bapur neu unrhyw defnydd arall e.e. gwahoddiadau, posteri, cardiau, mapiau ac ati; ag eithrio pan fydd hi'n ddigon hysbys mai Cymraeg yw'r iaith a ffafrir gan y bobl a fydd yn eu derbyn, neu oni bai bod hynny yn groes i unrhyw ddarpariaeth arall o fewn y cynllun iaith yma. Bydd hunaniaeth gyfun Cyngor y Dref, yn ei ddwyieithrwydd cyflawn, yn cael ei gynnwys; a bydd pennawd neu deitl y digwyddiad hefyd yn cael ei arddangos yn ddwyieithog.

3.3.8 Sicrheir y bydd Canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Gynllunio Dwyieithog ar gael i'r rhai hynny a fyddo'n ymwneud â chyhoeddi cynhyrchiadau ysgrifenedig.

3.4 Ffurflenni a Defnyddiau Esboniadol

3.4.1 Bydd pob ffurflen a defnyddiau esboniadol a gyhoeddir gan y Cyngor at eu defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg, ag eithrio sefyllfa lle y gwyddys mai Cymraeg yw iaith ddewisol y bobl a fydd yn eu derbyn, neu os gwneir cais am fersiwn ddwyieithog.

3.4.2 Bydd canllawiau ysgrifenedig ar y gweithdrefnau cywir yn cael eu dyroddi i aelodau o'r staff neu'r gweithlu a fydd ynghlwm wrth y gwaith o gynllunio a chynhyrchu ffurflenni.

3.5 Datganiadau i'r Wasg

3.5.1 Paratwir pob datganiad i'r wasg a'r cyfryngau yn iaith arferol y rhai a fydd yn derbyn ac yn darllen y cyhoeddiadau.

3.5.2 Bydd yr holl ddatganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yn cynnwys datganiad a fydd yn esbonio y gellir trefnu cyfweiliadau yn yr iaith Gymraeg, ar yr amod y cyflwynir rhybudd o leiaf dri diwrnod ymlaen llaw.

3.6 Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

3.6.1 Bydd gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog,

mewn dull a modd a fydd yn delio â'r ddwy iaith ar delerau cydradd a chyfartal.

3.6.2 Paratoir pob deunydd cyhoeddusrwydd naill ai ar ffurf un fersiwn dwyieithog neu'n fersiynau ar wahân yn y naill iaith a'r llall.

3.6.3 Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata neu hysbysebu a fydd yn cael eu gweithredu gan neu ar ran y Cyngor, trwy gyfrwng y wasg, y teledu neu'r radio, ac ati, yn gyfan-gwbl ddwyieithog.

3.6.4 Bydd llenyddiaeth hyrwyddo a baratoir ar gyfer marchnad y diwydiant ymwelwyr, naill ai'n ddwyieithog neu fel arall yn cael eu cynhyrchu ar wahân yn y ddwy iaith fel ei gilydd.

3.6.5 Cynhyrchir posteri ac arwyddion gwybodaeth yn ddwyieithog.

3.6.6 Bydd unrhyw arolygon cyhoeddus a weithredir gan y Cyngor yn ddwyieithog, ynghyd hefyd ag unrhyw fecanwaith i ddelio ag ymateb a gysylltir ag ymgyrchoedd i hyrwyddo gwybodaeth.

3.6.7 Bydd unrhyw arddangosfa gyhoeddus a lwyfennir gan neu ar ran y Cyngor, yn ddwyieithog.

3.7 Rhybuddion Swyddogol, Rhybuddion Cyhoeddus, a Hysbysebu i Recriwtio Staff

3.7.1 Bydd hysbysebion a rhybuddion a ymddengys yn y wasg, ar hysbysfyrddau, neu ar neu oddi mewn i unrhyw gyfrwng arall, yn ymddangos yn ddwyieithog, ag eithrio trefniadau y darparwyd ar eu cyfer oddi mewn i unrhyw adran arall o'r cynllun iaith hwn.

3.7.2 Bydd hysbysebion am swyddi lle byddo'r iaith Gymraeg yn angenrheidiol, yn ymddangos yn Gymraeg yn unig yn yr holl gyhoeddiadau, gyda brawddeg esboniadol yn Saesneg yn cael ei hychwanegu at yr hysbyseb os bydd yn ymddangos o fewn cyhoeddiadau uniaith Saesneg neu gyhoeddiadau dwyieithog.

3.7.3 Pe na byddai i unrhyw siaradwr Cymraeg gyda'r cymwysterau addas ymgeisio am swydd a hysbysebwyd, bydd y cyfryw swydd yn cael ei hail-hysbysebu yn yr iaith Saesneg a fydd yn cynnwys datganiad i egluro y byddai rheidrwydd ar y person a fyddai'n cael ei apwyntio i ddysgu'r Gymraeg (gweler 4.3.3).

3.7.4 Bydd hysbysebiadau ar gyfer pob swydd arall yn ddwyieithog yn y cyhoeddiadau Saesneg neu cyhoeddiadau dwyieithog, ac yng Nghymraeg yn unig oddi fewn i gyhoeddiadau yn yr iaith Gymraeg.

3.7.5 Bydd canllawiau ysgrifenedig ar y gweithdrefnau cywir a phriodol yn cael eu rhoddi i staff a fydd yn ymwneud â hysbysebu.

4. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

4.1 Staffio

4.1.1 Cynhelir adolygiad o fedrusrwydd y staff er mwyn sefydlu dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg, a hanfod-nodi'r swyddi lle bo'r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei

ystyried naill ai'n ddymunol neu'n hanfodol. Bydd swydd-ddisgrifiadau yn cael eu llunio yn unol â'r gofynion neilltuol dan sylw.

4.1.2 Amcanir wedyn at gael y dosbarthiad dymunol o siaradwyr Cymraeg, trwy hyfforddi staff yn briodol yn ôl yr angen, a recriwtio bwriadus tua'r dyfodol; a thrwy hynny felly y bwriedir gweithredu'r strategaeth staffio.

4.1.3 Bydd cynnal y lefel ddymunadwy o staff neu weithlu a fyddo'n siarad Cymraeg yn cael ei fonitro yn rheolaidd.

4.2 Dysgu Cymraeg

4.2.1 Bydd aelodau o'r staff sy'n delio â'r cyhoedd yn cael eu hannog i fynychu cyrsiau dysgu Cymraeg a fyddo'n briodol i'w hangen, yn lleol.

4.2.2 Anogir y dysgwyr o blith y staff i ymgeisio am gymwysterau megis y Cyrsiau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ's).

4.2.3 Bydd staff sy'n dysgu'r iaith Gymraeg yn cael eu symbylu a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithle.

4.2.4 Darperir copïau o gyhoeddiadau priodol a chymwys yn y swyddfa.

4.3 Recriwtio

4.3.1 Bydd medrusrwydd ieithyddol yn un o nifer o sgiliau a ystyrir wrth benodi staff. Lle'r ystyrir y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn angenrheidiol neu'n ddymunol yn achos unrhyw swydd, yna bydd hynny'n cael ei nodi'n benodol a diamwys wrth recriwtio ar gyfer y swydd honno.

4.3.2 Mewn sefyllfa lle bo dau ymgeisydd am yr un swydd - lle y nodwyd bod y Gymraeg yn ddymunol - yn meddu ar gymwysterau a phrofiad cydraddol, yna gallai lefel eu sgiliau mewn dwyieithrwydd fod yn ganllaw tuag at wneud y penderfyniad terfynol.

4.3.4 Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r ffaith y croesawir siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r gweithlu, trwy sicrhau fod pob hysbyseb ar gyfer pob un swydd a hysbysebir yn ymddangos yn ddwyieithog, a thrwy wneud yn siwr fod y cyfryw wybodaeth yn cael ei chyflwyno hefyd i'r Ganolfan Gwaith pryd bynnag y byddo hynny'n berthnasol.

4.4 Trefniadau Gweinyddol

4.4.1 Mae'r cynllun iaith yma yn derbyn cefnogaeth lawn y Cyngor yn ogystal â Chlerc y Dref.

4.4.2 Bydd y cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun iaith o fewn y Cyngor yn gorffwys gyda Chlerc y Dref, a fydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau fod y canllawiau a'r cyfarwyddiadau ar gael i'r holl staff sydd ynghlwm wrth neu'n ymwneud â gweithredu'r cynllun.

- Monitro gweithrediad neu implementeiddiad y cynllun.
- Darparu adroddiad blynyddol ar weithrediad y cynllun, i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.4.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau fod holl aelodau'r staff yn derbyn gwybodaeth i beri iddynt fod yn ymwybodol o'r cynllun a dod i ddeall oblygiadau'r cynllun iaith, trwy darparu canllawiau manwl i bawb ar y dull a'r modd o weithredu'r cynllun o fewn y Cyngor.

4.4.4 Bydd manylu'n benodol wrth ystyried addasu rhaglenni cyfrifiadurol neu eu cyfnewid er gwell, neu brynu rhaglenni neilltuol o'r newydd, yn galluogi'r Cyngor i weithredu ymrwymadau'r cynllun iaith, lle bo hynny'n briodol.

4.5 Y Gwasanaeth Cyfieithu

4.5.1 Bydd anghenion cyfieithu ysgrifenedig y Cyngor yn gyfrifoldeb y cyfieithydd, a fydd hefyd yn gyfrifol am ansawdd y testun Cymraeg a gynhyrchir.

4.5.2 Bydd cyfieithydd y Cyngor yn berson wedi cymhwysu'n addas i fedru cynhyrchu gwasanaeth o ansawdd uchel.

4.5.3 Pe na byddai'r cyfieithydd yn abl i gwblhau'r gwaith o fewn yr amser penodedig, yna fe fyddir ym cyflogi cyfieithydd arall allanol at gyflawni'r gorchwyl.

4.5.4 Gyda Chlerc y Dref y bydd y cyfrifoldeb am drefnu adnoddau a chyfarpar cyfieithu ar-y-pryd at holl anghenion y Cyngor. Bydd y gwasanaeth yma ar gael yn ôl yr angen a phan ofynnir amdano, yn holl gyfarfodydd y Cyngor ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor.

4.6 Monitro

4.6.1 Bydd implementeiddio'r cynllun (ei weithredu a'i roi mewn grym) yn cael ei fonitro a'i fesur.

4.6.2 Bydd y cyfrifoldeb dros fonitro'r cynllun yn gorffwys gyda Chlerc y Dref, a fydd yn darparu adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.6.3 Cynhwysir yr eitemau canlynol yn y broses o fonitro a mesur llwyddiant y cynllun iaith:

* Cynllunio rhag blaen:

- Sicrhau fod polisïau, cyhoeddiadau neu raglenni cyfrifiadurol newydd, yn cyd-fynd ac yn cydymffurfio â gweithredu'r gwasanaeth dwyieithog, ar sail cydraddoldeb.

* Gweithredu gwasanaethau:

- Implementeiddio'r trefniadau a wnaed i weithredu gwasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg, a chadw llygad ar eu heffeithiolrwydd.

- * Delio â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith:
 - Yr amser a gymerir i ymateb i ohebiaeth Gymraeg.
 - Gweithredu'r mesurau parthed cyfathrebu dros y ffôn.
 - Yr ansawdd a'r defnydd o wasanaethau cyfieithu ar-y-pryd.
 - Y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus.
 - Naws ddwyieithog y gweithle yn y manau lle gall y cyhoedd gael mynediad

iddynt.

- * Wyneb cyhoeddus y Cyngor:
 - Implementeiddio delwedd gorfforaethol y Cyngor (ei gweithredu a'i grymuso).
 - Cyflwyno cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, rhybuddion, a defnyddiau cyhoeddedig eraill dwyieithog.
- * Staffio:
 - Y graddau y byddo'r lefel ddymunol o staff sy'n medru cyfathrebu yn y Gymraeg, yn cael ei chynnal a'i harddel.
- * Amserlen:
 - Llwyddiant cyrhaeddiad, yn erbyn amserlen cynllun iaith y Cyngor.
- * Achwyniadau:
 - Nifer a natur yr achwyniadau a dderbyniwyd yng nghyswllt gwasanaethau'r Cyngor yn yr iaith Gymraeg, ac awgrymiadau tuag at wella'r ddarpariaeth.

4.6.4 Bydd pob cyhoeddusrwydd a fyddo'n ymwneud â'r cynllun iaith yn cofnodi enw'r person apwyntiedig y dylid cyfeirio achwyniadau ato/ati yngl~n â materion yn gysylltiedig â gweithredu'r cynllun. Bydd pob un achwyniad yn cael ei gydnabod trwy lythyr, ac yn cael ei gofnodi a'i drafod fel yn briodol ac addas.

4.6.5 Bydd y Cyngor yn annog ac yn croesawu awgrymiadau oddi wrth y staff a'r cyhoedd, parthed gwelliannau i unrhyw agwedd o'r cynllun iaith. Bydd pob awgrym ac argymhelliad yn cael ei gydnabod trwy lythyr ysgrifenedig.

4.6.6 Bydd pob aelod o'r staff yn derbyn disgrifiad o'r gweithdrefnau cywir i'w defnyddio o fewn y gorchwyl o weithredu'r cynllun iaith.

4.7 Targedau Gweithredu y Gellir eu Monitro

4.7.1 Bydd implemeteiddiad y cynllun iaith yn cael ei fesur yn erbyn yr amserlen a ddarparwyd ac y cytunwyd yn ei chylch. Bydd yr ymrwymiad presennol i safonau a phrydlonrwydd amser tra'n delio â busnes y Cyngor, yn cael ei gynnal o'r dechreuad cynharaf.

4.8 Cyhoeddi Gwybodaeth

4.8.1 Bydd adroddiadau ar weithredu a grymuso'r cynllun iaith yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Bydd yr adroddiadau yma'n cynnwys materion megis:

- \$ Yr amser y bydd hi'n ei gymryd i ymateb i ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- \$ Canran y cyhoeddiadau a gynhyrchir yn flynyddol.

- \$ Canran y datganiadau i'r wasg a gyhoeddir yn flynyddol.
- \$ Perfformiad wrth brosesu ceisiadau a wnaed yn Gymraeg erbyn y dyddiadau olaf /cau.
- \$ Nifer o siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, o'i gymharu â'r targed a osodwyd.

4.9 Cyhoeddusrwydd

4.9.1 Darperir gwybodaeth ynglŷn â'r cynllun iaith at ddefnydd y cyhoedd, mewn taflenni gwybodaeth dwyieithog a ddsberthir o swyddfeydd y Cyngor ac o ganolfannau priodol eraill. Bydd y defnydd cyhoeddusrwydd yn cadarnháu bod y Cyngor yn cynnig gwasanaeth llawn trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.10 Amserlen

4.10.1 Bydd Clerc y Dref yn adolygu'r sefyllfa bresennol parthed darpariaeth y gwasanaethau, yn unol â chynnwys y cynllun iaith yma, a bydd yn hanfod-nodi'r cylch-feysydd a fyddo angen unrhyw sylw neilltuol. Bydd angen i Gyngor y Dref neilltuo cronfeydd newydd gydag ystyriaeth i dalu am: (a) gwasanaethau'r cyfieithydd ac offer neu gyfarpar penodol, (b) anfon staff i fynychu cyrsiau dysgu Cymraeg fel yn briodol a chymwys, (c) gwaith cyfieithu ychwanegol y bydd yn rhaid ymgymryd ag ef, a'r (ch) gwelliannau, datblygiad cynlluniau, a chyhoeddi defnyddiau dwyieithog.

4.10.2 Bydd Cyngor y Dref yn dechrau gweithredu'r cynllun iaith (mewn ystyr ffurfiol) o'r dyddiad y caiff y cynllun ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda golwg ar ei dywys i fod yn gwbl weithredol erbyn y 1af Medi 1998.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, achwyniadau neu awgrymiadau yn gysylltiedig â'r cynllun iaith yma, at:

Mr A J LeRiche, Clerc y Dref
Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaiarn
Adeiladau Cyngor y Dref
Y Groes
Y DRENEWYDD
Powys SY16 2LS.

Ffôn: (01686) 625 544